

**TOBOD
DYFO**

DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

Embargo tan 12am

Embargo until 12am

9^{fed} Awst 2024

(see below for English)

DYFODOL I'R IAITH YN CEFNOGI

ADRODDIAD COMISIWN CYMUNEDAU CYMRAEG

Mae Dyfodol i'r iaith yn gwbl gefnogol i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a'r holl argymhellion sydd ynddo. Mae hi'n unfed awr ar ddeg ar nifer fawr o gymunedau naturiol Cymraeg ac mae dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch a gweithredu cyfres o fesurau penodol a phellgyrhaeddol yn hanfodol er mwyn ceisio eu hachub cyn iddi fod yn rhy hwyr. Fel arall, does dim amheuaeth y collwn y pwerdai ieithyddol hyn o ran cynaladwyedd y Gymraeg ar lawr gwlad. Anghofiwn am y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg os nad oes cymunedau naturiol yn bodoli lle mae hi'n rhan o wead y gymuned - yn iaith y cartref, stryd, iard yr ysgol a gweithgareddau cymunedol.

Meddai Heini Gruffudd, Cadeirydd Dyfodol i'r iaith, "Rydyn ni'n cefnogi'n llwyr y gyfres o argymhellion a geir yn yr adroddiad ac yn galw ar holl gyrff cyhoeddus a gwirfoddol Cymru i ddatgan eu bod yn gwbl ymrwymedig i gefnogi sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dyma oedd un o'n prif argymhellion a gyflwynom yn ein sylwadau yn ystod y broses ymgynghori. Eisoes mae rhai o Gynghorau Cymunedol ardal Pen Llŷn wedi datgan eu cefnogaeth o blaid dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Galwn ar eraill i'w dilyn."

"Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ac felly mae dyletswydd ar bob sefydliad o Gynghorau Tref a Chymuned, Cynghorau Sirol a Llywodraeth Cymru i ymrwymo i'w chynnal a'u hadfywio. Gyda'n gilydd gallwn gyflawni hyn. Nid swyddogaeth Llywodraeth Cymru yn unig yw hyn ond mae angen iddynt ddangos arweiniad a blaengaredd i sicrhau fod ein trysorau cenedlaethol yn gwbl allweddol a chreiddiol i ddyfodol y Gymraeg.

"Wrth reswm mae angen buddsoddiad ariannol ond mae modd gwireddu llawer o'r argymhellion hyn o fewn y swyddogaethau a chyfrifoldebau presennol a weithredir gan nifer o gyrff ar lawr gwlad, yn lleol, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol."

"Mae'r buddsoddiad ariannol diweddar o £200 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Maes Awyr Caerdydd yn dangos bod arian cyhoeddus ar gael er gwaethaf y toriadau difrifol a welwyd yng Nghymru."

“Mae'r toriadau hyn eisoes wedi effeithio yn enbyd ar y Gymraeg trwy gyrff megis Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Y Cyngor Llyfrau, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a'r sector amaethyddiaeth ac addysg. Galwn felly ar ein Prif Weinidog newydd, Eluned Morgan i ddechrau ei chyfnod wrth y llyw gydag ymrwymiad diffuant i fabwysiadu rhaglen waith fanwl i fwrw ati i wireddu'r argymhellion hyn.”

“Allwn ni ddim mwyach parhau i weld adroddiad fel hwn yn magu llwch ar y silff. Mae hynny wedi digwydd yn rhy aml yn y gorffennol. Bellach mae angen gweledigaeth genedlaethol Gymreig i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog gan gychwyn ar adfywio a chryfhau y cymunedau Cymraeg hynny sy'n cyfrannu gymaint i hyfywedd yr iaith ymhob rhan o Gymru nid ond yn yr ardaloedd yma eu hunain.”

Diolchwn i holl aelodau Comisiwn Cymunedau Cymraeg am eu gwaith dyfal ac ar gyhoeddi adroddiad mor drylwyr a chynhwysfawr ond rwan yw'r amser i fwrw ati o ddifri, mewn undod i'w gwireddu. Mae Dyfodol yr Iaith a'i holl aelodau yn barod i gyfrannu at wireddu hynny. Galwn ar bobl Cymru i gefnogi yn yr un modd.”

- DIWEDD -

Am fanylion pellach cysylltwch â Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith ar 07989393445 neu dylanbryn@dyfodol.net neu Heini Gruffudd, Cadeirydd, 07983 506805, heini@gruffudd.org

Dyfodol i'r Iaith

- Mae Dyfodol i'r iaith ar faes yr Eisteddfod yn stondin rhif 213-214.
- Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles y Gymraeg
- Ei nod yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisïau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg.

DYFODOL I'R IAITH WELCOMES THE COMMISSION FOR WELSH SPEAKING COMMUNITIES'S REPORT

Dyfodol i'r iaith is fully supportive of the Commission for Welsh speaking communities report and all the recommendations contained therein. Time's almost up for a large number of natural Welsh speaking communities and designating areas of special linguistic significance and implementing a series of specific and far-reaching measures is essential to try to save them before it's late. Otherwise, there's no doubt that we will lose these linguistic powerhouses in terms of sustaining the Welsh language on the ground. We might as well forget about the target of one million Welsh speakers if no natural Welsh speaking communities exist where its part of the fabric of the community – the language of the home, street, schoolyard and community activities.

Heini Gruffudd, Chair of Dyfodol i'r laith said, "We fully support the set of recommendations contained in the report and call on all public and voluntary bodies in Wales to state that they are fully committed to supporting the establishment of areas of special linguistic significance. This was one of our key recommendations submitted in our response during the consultation process. Already some Community Councils in the Llŷn Peninsula area have stated their support for the designation of areas of special linguistic significance. We call on others to follow suit."

"The Welsh language belongs to everyone in Wales and therefore it is incumbent on all organisations from Town and Community Councils, County Councils and Welsh Government to commit to maintaining and revitalising it. Together we can achieve this. This is not just the role of the Welsh Government, but it needs to show leadership and forward thinking to ensure that our national treasures are absolutely key and core to the future of the Welsh language."

"Of course, financial investment is needed but many of these recommendations can be realised within the existing functions and responsibilities implemented by a number of organisations, local, county, regional and national."

"The recent £200 million financial investment announced by the Welsh Government to support Cardiff Airport shows that public funding is available despite the severe cuts seen in Wales."

"These cuts have already had a profound impact on the Welsh language through bodies such as the Welsh Language Commissioner, The Welsh Books Council, the Arts Council of Wales, the National Museum of Wales and the agriculture and education sectors. We therefore call on our new First Minister, Eluned Morgan to begin her term with a sincere commitment to adopt a detailed work programme to implement these recommendations. "

"We can no longer continue to see a report like this gathering dust on a shelf. That has happened all too often in the past. A Welsh national vision is now needed to create a truly bilingual Wales embarking on regenerating and strengthening those Welsh communities that contribute so much to the viability of the language in all parts of Wales not only in these areas."

We thank all members of the Commission for Welsh speaking communities for their diligent work and on publishing such a thorough and comprehensive report but now is the time to get on with implementing it, together and make it a reality. Dyfodol i'r laith and all its members are ready to contribute to making that a reality. We call on the people of Wales' support in the same way."

- ENDS -

For further information please contact Dylan Bryn Roberts, Chief Executive, Dyfodol i'r laith on 07989393445 or dylanbryn@dyfodol.net or Heini Gruffudd, Chair, 07983 506805, heini@gruffudd.org

Dyfodol i'r laith

- Dyfodol i'r laith is at the National Eisteddfod, stall number 213-214.
- Dyfodol i'r laith (A Future for the Language) is a non-political organisation that works for the promotion of the Welsh language.
- Its aim is to exert influence through constitutional means on the substance and content of public policies and legislation in order to promote and nurture the growth of the Welsh language.